Adran dros Drafnidiaeth

# Nodiadau canllaw ar gwblhau'r Arolwg Parhaus o Gludo Nwyddau ar Ffyrdd, GB (CSRGT, GB)

**Cyfarwyddiadau**
Bwriad y nodiadau hyn yw eich helpu i gwblhau'r holiadur Arolwg Parhaus o Gludiant Nwyddau ar Ffordd, GB (GBRGT, GB).

Os oes angen canllawiau pellach arnoch wrth gwblhau'r holiadur hwn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r arolwg hwn, gallwch gysylltu â ni drwy'r manylion isod:

**Ffôn:** 0207 944 8233
**E-bost:** CSRGT.STATS@dft.gov.uk
*(Dyfynnwch rif cofrestru'r cerbyd ym mhob darn o ohebiaeth)*

---

## Canllawiau ar gwblhau'r ffurflen

**Adran A: Manylion y cerbyd cofrestredig**

**Enw a chyfeiriad y ceidwad cofrestredig:** Mae hwn yn dangos enw a chyfeiriad ceidwad cofrestredig y cerbyd fel y mae gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

- Os yw'r cerbyd wedi'i leoli'n rheolaidd mewn lleoliad gwahanol i hyn, rhowch wybod i ni yn y gofod a ddarperir.
- Os nad ydych chi'n meddu ar y cerbyd hwn mwyach, rhowch wybod i ni, gan ddefnyddio Adran B.

**Marc cofrestru'r cerbyd sy'n cael ei arolygu:** Mae hyn yn nodi rhif cofrestru'r cerbyd y mae'r arolwg hwn yn ymwneud ag ef.

- Dim ond ar gyfer y cerbyd hwn y dylid cwblhau'r arolwg hwn.
- Os nad ydych chi'n meddu ar y cerbyd hwn mwyach, rhowch wybod i ni, gan ddefnyddio Adran B.

**Wythnos yr arolwg:** Mae hyn yn dangos y dyddiadau dechrau a gorffen y mae'r arolwg hwn yn cyfeirio atynt. **Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i chi gofnodi pob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cerbyd hwn**, fel y gofynnwyd amdano yn yr arolwg hwn, a ddigwyddodd o fewn y dyddiadau hyn.

**Adran B: Newid meddiant**

Os nad ydych yn meddu ar y cerbyd a restrir yn Adran A mwyach, dywedwch wrthym pam drwy ddarparu gwybodaeth yn y gofod priodol – rhowch un ymateb yn unig:

- Os cafodd y cerbyd ei sgrapio neu ei ddwyn, ysgrifennwch y dyddiad pan ddigwyddodd hyn.
- Os gwerthwyd y cerbyd, nodwch y dyddiad y cafodd ei werthu ac enw, cyfeiriad ac (e-bost os yw'n hysbys) y perchennog newydd, yn y gofod a ddarparwyd.
- Os oedd y cerbyd ar log i rywun arall yn ystod wythnos yr arolwg, ticiwch y blwch ac ysgrifennwch enw, cyfeiriad ac e-bost yr unigolyn neu'r sawl yr oedd y cerbydau ar log iddynt yn y gofod a ddarparwyd.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r adran hon, ewch yn syth i gwestiwn 8 ar dudalen 3, gan anwybyddu cwestiynau 1 – 7.

Os nad yw'r adran hon yn berthnasol i chi, ewch ymlaen i Adran C.

**<u>Adran C: Gweithgarwch y cerbyd</u>**

**Cwestiwn 1:** Os nad oedd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio yn ystod wythnos <u>gyfan</u> yr arolwg, dywedwch wrthym pam drwy dicio'r opsiwn mwyaf priodol. Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

**Cwestiwn 2:** Nodwch gyfanswm y tanwydd a roddwyd yn y cerbyd hwn, yn ystod wythnos yr arolwg. Dylech **gynnwys yr holl danwydd** a roddwyd yn y cerbyd **waeth o ble y daeth**. Sicrhewch eich bod yn nodi a ydych yn mesur hyn mewn litrau neu alwyni drwy ddileu'r opsiynau fel y bo'n briodol.

**<u>Adran D: Manylion y busnes</u>**

**Cwestiwn 3:** Eglurwch sut oedd y cerbyd hwn yn cael ei ddefnyddio yn ystod wythnos yr arolwg drwy dicio:

- “Ar gyfrif eich hun” - os cafodd ei ddefnyddio i gludo nwyddau ar ran eich cwmni.
- “Am dâl a gwobr” - os cafodd ei ddefnyddio ar sail tâl a gwobr.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

**Cwestiwn 4:** Nodwch a yw eich cwmni’n cyflogi cyfanswm o lai na 10 person yn uniongyrchol yn y DU drwy dicio:

- “Ydy” - os yw’n cyflogi llai na 10 person.
- “Nac ydy” - os yw’n cyflogi mwy na 10 person.

Wrth gofnodi nifer y cyflogeion yn eich cwmni, cofiwch gynnwys **eich holl gyflogeion uniongyrchol** gan gynnwys staff y swyddfa ac ati, nid gyrwyr yn unig.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

**Cwestiwn 5:** Eglurwch natur eich busnes:

- Os ticioch chi “Ar gyfrif eich hun” yng Nghwestiwn 3 - eglurwch natur y busnes y mae’r cerbyd hwn yn cludo nwyddau ar ei gyfer e.e cyfanwerthwr nwyddau trydanol, gwneuthurwr dodrefn, cynhyrchydd diodydd meddal ac ati.
- Os ticioch chi “Am dâl a gwobr” yng Nghwestiwn 3, yn syml, rhowch “Cludo Nwyddau”.

**<u>Adrannau E ac F: Dyddiadur gweithgarwch y cerbyd</u>**

Dylid defnyddio'r adran hon o'r ffurflen i gofnodi manylion yr holl Siwrneiau a stopiau a wnaed ar gyfer llwytho a/neu ddadlwytho nwyddau a wnaed gan y cerbyd drwy gydol wythnos yr arolwg. Nodwch holl weithgareddau’r cerbyd drwy gydol y cyfnod arolwg saith diwrnod. Os nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw ddiwrnod, nodwch yn glir y rheswm yn y rhesi ar gyfer y diwrnod hwnnw.

**Pa Siwrneiau y dylid eu cofnodi?**

Dylech **gofnodi manylion yr holl Siwrneiau a wnaed yn y DU** (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ac **eithrio** manylion Siwrneiau i Ynys Manaw, Guernsey a Jersey neu o’r ynysoedd hynny.

Os yw rhan o'r Siwrnai yn cynnwys tarddiad neu gyrchfan y tu allan i'r DU (e.e. i Weriniaeth Iwerddon, Ffrainc, tir mawr Ewrop ac ati), **dim ond y rhan o'r Siwrnai a gynhaliwyd yn y DU y dylech ei rhoi**, ac eithrio unrhyw ran y Siwrnai a gynhaliwyd dramor.

Lle mae'r Siwrnai yn golygu bod y cerbyd yn gadael neu'n dod i mewn i'r DU, dylid cofnodi’r porthladd neu'r derfynfa reilffordd (ar gyfer Twnnel y Sianel) lle’r oedd y cerbyd wedi gadael y DU fel tarddiad neu gyrchfan y siwrnai honno.

Er enghraifft, mae cerbyd yn teithio o Lundain i Baris ar fferi o Dover i Calais. Dylai'r Siwrnai ddangos cod post Llundain fel y tarddiad a chod post Dover (y man lle gadawodd y cerbyd y DU) fel y gyrchfan.

**Beth a olygwn wrth Siwrneiau a stopiau:**

Diffinnir **Siwrnai** fel symudiad cerbyd o darddiad penodedig i gyrchfan benodedig a gall y cerbyd fod naill ai'n **llawn llwyth neu'n wag** yn ystod y Siwrneiau hyn.

Gall cerbyd wneud un neu fwy o **stopiau** yn ystod Siwrnai i **naill ai llwytho a/neu ddadlwytho nwyddau**. Dim ond stopiau ar gyfer llwytho/dadlwytho nwyddau neu le mae cerbyd yn gadael neu'n dychwelyd i'r safle y dylid eu cofnodi (e.e. peidiwch â chynnwys egwyliau bwyd/gorffwys, tagfeydd ac ati).

**Ble dylid cofnodi'r rhain?**

Mae dwy adran lle dylid cofnodi manylion y Siwrneiau a wnaed. Dim ond **mewn un adran neu'r llall** y dylid cofnodi Siwrnai a nifer y stopiau y mae'r cerbyd wedi'u gwneud sy'n penderfynu a yw'r Siwrnai yn cael ei chofnodi yn Adran E **neu** Adran F:

**Adran E: Siwrneiau sy’n cynnwys pedwar stop neu lai bob dydd:**

- Dylid defnyddio'r adran hon i gofnodi Siwrneiau a oedd yn cynnwys uchafswm o **bedwar stop neu lai, y dydd, naill ai** i **lwytho a/neu ddadlwytho nwyddau**.

- Dylid llenwi rhesi sydd wedi'u nodi â dyddiau'r wythnos gyda manylion y Siwrneiau a ddigwyddodd ar y dyddiau hynny yn unig.

- Mae gan bob diwrnod bum rhes. Mae'r bumed res ar gyfer cyflawnrwydd wrth gofnodi rhan olaf Siwrnai a oedd yn cynnwys pedwar stop. **Dylid dim ond defnyddio'r** pumed res i gofnodi rhan olaf Siwrnai lle mae'r cerbyd wedi gwneud pedwar stop ac mae <u>naill ai'n</u> **dychwelyd i'r safle** <u>neu'n</u> teithio i bwynt llwytho/dadlwytho'r diwrnod nesaf. Os yw pumed stop y cerbyd y diwrnod hwnnw yn cynnwys llwytho a/neu ddadlwytho nwyddau – **dylid cofnodi'r Siwrnai gyfan ar gyfer y diwrnod hwnnw yn Adran F**.

  **Gweler enghreifftiau ar ddiwedd y canllawiau hyn.**

**Adran F: Siwrneiau sy’n cynnwys pum stop neu fwy bob dydd:**

- Dylid defnyddio'r adran hon i gofnodi Siwrneiau a oedd yn cynnwys isafswm o **bum stop neu lai, y dydd, naill ai** i **lwytho a/neu ddadlwytho nwyddau**.

- Enghreifftiau posibl o Siwrneiau bum stop neu fwy: cerbyd sy'n stopio'n aml e.e. cerbydau llogi sgipiau, casgliadau sbwriel, cludwyr parseli ac ati i lwytho a/neu ddadlwytho nwyddau ym mhob stop **o leiaf bum gwaith neu fwy, y dydd**.

- Os bydd y cerbyd yn teithio’n **wag rhwng dwy Siwrnai ar wahân**, cofnodwch y Siwrnai wag yn Adran E.

**<u>Siwrneiau a wnaed gan y cerbyd</u>**
*Ceir enghreifftiau o adrannau E ac F wedi'u cwblhau ar ddiwedd y ddogfen hon*

**Diwrnod yr wythnos:** Cofnodwch fanylion y Siwrnai(Siwrneiau) a ddigwyddodd ar bob un o'r diwrnodau cyfatebol.

**Ble wnaeth y Siwrnai gychwyn/gorffen: Cod post NEU enw'r lle a'r sir:** Cofnodwch fan cychwyn/gorffen pob Siwrnai, ar linell newydd, os yw'r Siwrnai gyfan yn yr un dref neu ddinas, cofnodwch hyn yn y man cychwyn a gorffen fel sy'n arferol.

Rhowch y cod post os yw'n bosibl neu os nad yw ar gael, ysgrifennwch enw'r lle a'r sir:

- Ar gyfer dinasoedd neu ardaloedd trefol mawr: rhowch leoliad daearyddol mwy manwl e.e. Wembley (yn lle Llundain) neu Gateshead (yn lle Newcastle) neu Blackford (yn lle Caeredin).

- Y tu allan i ddinasoedd: rhowch leoliad daearyddol manylach ynghyd â manylion y sir (e.e. Yr Amwythig, Sir Amwythig neu Ferthyr, Sir Gaerfyrddin neu Corkey, Balleymoney).

- Ar gyfer lleoliadau fel chwareli, depos neu ffermydd neu lle nad oes cod post, nodwch enw'r lleoliad, yr anheddiad agosaf a'r sir (e.e. Fferm Downriver, Hampshire)

***(Adran F yn unig)*** **Stop pellaf o'r tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir:** Cofnodwch y man pellaf o'r tarddiad y stopiodd y cerbyd i lwytho a/neu ddadlwytho nwyddau yn ystod y Siwrnai honno.

Rhowch y cod post os yw'n bosibl neu os nad yw ar gael, ysgrifennwch enw'r lle a'r sir, fel y cyfarwyddwyd uchod.

**A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o (Porthladd llongau neu ddociau, depo/terfynell rheilffordd, maes awyr):** Nodwch a yw'r tarddiad neu'r gyrchfan lle mae'r nwyddau'n cael eu llwytho a/neu eu dadlwytho yn unrhyw un o'r opsiynau hyn. Diben y cwestiwn hwn yw canfod a yw'r nwyddau sy'n cael eu llwytho/dadlwytho yn cael eu trosglwyddo o un math o gludiant neu un arall naill ai o'u Siwrnai flaenorol neu eu siwrnai nesaf.

Os yw'r nwyddau'n cael eu llwytho a/neu eu dadlwytho yn Nhwnnel y Sianel, ticiwch derfynfa rheilffordd.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

**Gweler enghreifftiau ar ddiwedd y canllawiau hyn.**

**Y pellter a deithiwyd:**

- Nodwch y pellter a deithiwyd (i un lle degol) rhwng pob stop **naill ai** yn y golofn 'wedi'i lwytho' neu'r golofn 'gwag' i ddangos bod y cerbyd **naill ai** wedi'i lwytho **neu** yn wag yn ystod y pellter hwn. Cofnodwch y pellter **naill ai** mewn cilomedrau **neu** filltiroedd a nodwch hyn **drwy roi llinell drwy'r** llall fel y bo'n briodol:

- Rhowch y pellter ar gyfer pob Siwrnai.

- Peidiwch â rhoi un gwerth pellter i gwmpasu Siwrneiau lluosog.

- Peidiwch â symio pellteroedd yn gronnol neu gyfuno pellteroedd ar draws Siwrneiau.

- Peidiwch ag ysgrifennu darlleniadau tacograff neu odomedr.

***(Adran F yn unig)***

- Cofnodwch yr holl filltiroedd 'gwag' a wnaed yn ystod y Siwrnai. Os yw'r cerbyd yn dychwelyd yn wag ar ddiwedd y rownd, e.e. ar Siwrnai 'safle i safle', dylech gynnwys y milltiroedd 'gwag' hyn hefyd.

**Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd:** Rhowch ddisgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd. Er enghraifft, anifeiliaid byw, gwastraff aelwyd, post/parseli, llaeth crai, cynnyrch bwyd amrywiol, cynnyrch chwarelydda, peiriannau ar log ac ati.

- Os mai paledi gwag oedd y llwyth, neu gawellau gwifrau, cawellau rholio neu becynnu eraill, ysgrifennwch 'Pecynnu'.
- Os mai cynhwysydd llwythi gwag oedd y llwyth, ysgrifennwch 'Cynhwysydd Gwag'.
- Os oedd y cerbyd wedi'i ddadlwytho, ysgrifennwch 'Gwag'.

Os oedd y llwythi'n gymysg, dylid cofnodi'r prif fath o nwyddau os yw'n cynrychioli 75% (tri chwarter) o bwysau'r llwyth; dylid cofnodi llwythi cymysg eraill fel 'Grwpio'.

**A oedd y rhain yn nwyddau peryglus?** Cofnodwch a oedd y nwyddau a gludwyd yn cael eu hystyried yn beryglus drwy ychwanegu un o'r codau canlynol (gadewch yn wag os ydych yn ateb 'nac oedd'):

| Cod | Disgrifiad | Cod | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **Ffrwydron** | | **Ocsideiddion** | |
| 1 | Ffrwydryn | 5.1 | Ocsidydd |
| **Nwyon** | | 5.2 | Perocsid organig |
| 2.1 | Nwy fflamadwy | **Sylweddau gwenwynig** | |
| 2.2 | Nwy anfflamadwy, diwenwyn | 6.1 | Sylwedd gwenwynig |
| 2.3 | Nwy gwenwynig | 6.2 | Sylwedd heintus |
| **Hylif fflamadwy** | | **Deunydd ymbelydrol** | |
| 3 | Hylif fflamadwy | 7 | Deunydd ymbelydrol |
| **Solidau fflamadwy** | | Sylweddau cyrydol | |
| 4.1 | Solet fflamadwy | 8 | Sylwedd cyrydol |
| 4.2 | Sylwedd sy'n hylosgi'n ddigymell | **Nwyddau peryglus eraill** | |
| 4.3 | Sylwedd sy'n rhyddhau nwy fflamadwy wrth ddod i gysylltiad â dŵr | 9 | Nwyddau peryglus eraill |

**Math y Llwyth** Disgrifiwch sut caiff y nwyddau eu cludo drwy ysgrifennu un o'r codau canlynol yn y gwagle a ddarperir ar y ffurflen:

Dylid cofnodi llwythi cymysg fel OT.

| Cod | Disgrifiad | Cod | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **LB** | Swmp Hylif | **PS** | Nwyddau sydd Eisoes wedi'u Pecynnu |
| **SB** | Llwyth Solet | **NP** | Nwyddau Heb eu Pecynnu ac unedau rhydd eraill<br>e.e. da byw, ceir, peiriannau |
| **LFC** | Cynhwysyddion Llwythi Mawr, gan gynnwys Cynhwysyddion ISO | **RC** | Cawellau Rholio ac unedau rhydd eraill |
| **OFC** | Cynhwysyddion Cludo Nwyddau Eraill, gan gynnwys Stelinau | **OT** | Mathau Eraill o Gargo gan gynnwys Cynhwysyddion Cyfnewid, Bocsys, Cewyll a Silindrau neu lwythi cymysg |
| **PL** | Nwyddau ar Baledi | **NS** | Gwag |

**Pwysau'r nwyddau:** Cofnodwch **gyfanswm** pwysau'r nwyddau sy'n cael eu cario ar gyfer pob Siwrnai:

- Dylai pwysau'r nwyddau gynnwys unrhyw becynnu neu gynhwysyddion.
- Dylai'r pwysau gynnwys cyfanswm pwysau'r nwyddau a gludir ar y Siwrnai honno – a dylai ddangos ei fod yn gyfanswm cronnol wrth i'r Siwrneiau gael eu cofnodi, h.y. dylai fynd i fyny wrth i fwy o nwyddau gael eu llwytho ac i lawr wrth i nwyddau gael eu dadlwytho.
- Ystyrir bod cyflenwad gyda llwyth o 'Ddeunydd Pacio' gwag neu 'Gynhwysydd Gwag' yn gyfystyr â cherbyd sydd wedi'i lwytho ac felly mae'n rhaid cofnodi'r pwysau.

***(Adran F yn unig)***

- Amcangyfrifwch gyfanswm pwysau'r nwyddau a ddanfonwyd a/neu a gasglwyd ar bob Siwrnai.

**A oedd eich cerbyd yn cario ei gapasiti llawn yn ôl lle/pwysau:** Os oedd y cerbyd yn teithio'n llawn yn ystod y Siwrnai yn ôl:

- Lle, rhowch I yn y golofn ‘lle’, neu fel arall rhowch N.
- Pwysau (capasiti cludo), rhowch I yn y golofn ‘pwysau’, neu fel arall rhowch N.

Rhowch naill ai I neu N yn y ddwy golofn.

***(Adran F yn unig):*** **Nifer y stopiau ar gyfer: Llwytho, dadlwytho, llwytho a dadlwytho** Cofnodwch nifer y weithiau y mae'r cerbyd wedi stopio:

- Llwytho: Lle cafodd nwyddau eu **llwytho** ar y cerbyd yn **unig**
- Dadlwytho: Lle cafodd nwyddau eu **dadlwytho** o’r cerbyd yn **unig**
- Llwytho a dadlwytho: Lle cafodd nwyddau eu **llwytho** ar y cerbyd **a’u dadlwytho** o'r cerbyd **yn ystod yr un stop**.
- Os yw'r cerbyd yn gwneud mwy na 25 o stopiau yn ystod un Siwrnai ‘safle i safle’, ysgrifennwch ‘lluosog’  ar draws y colofnau ‘Nifer y stopiau ar gyfer llwytho, dadlwytho neu lwytho a dadlwytho’.

## Adran G: Pob cerbyd

**Cwestiwn 6:** Nodwch gapasiti pwysau’r cerbyd a’i gapasiti cludo:

- Mae “pwysau gros y cerbyd” yn cyfeirio at gyfanswm pwysau’r cerbyd (neu gerbyd a’i drelar) yn ogystal â’r uchafswm pwysau o lwyth y caniateir iddo ei gludo ar ffyrdd cyhoeddus.
- Mae “capasiti cludo” yn cyfeirio at gyfanswm pwysau’r llwyth y caniateir i’r cerbyd ei gludo ar ffyrdd cyhoeddus.

**Cofnodwch yr holl bwysau mewn cilogramau**.

**Cwestiwn 7:** Ticiwch y blwch sy'n disgrifio orau ffurfweddiad echel a math corff y cerbyd a ddefnyddiwyd ar gyfer Siwrneiau yn ystod wythnos yr arolwg.

Ar gyfer cerbydau cymalog:

- Sicrhewch eich bod yn nodi math y trelar a ddefnyddiwyd. Os mai dim ond y tractor sy'n cael ei ddefnyddio ar Siwrnai i gasglu trelar, ticiwch ffurfweddiad y trelar cyntaf a ychwanegwyd.
- Os ydych yn newid math y trelar yn ystod wythnos yr arolwg, yna ticiwch y blwch ar gyfer y math cyntaf o drelar a ddefnyddiwyd.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

## Adran H: Manylion cyswllt ac ardystiad

**Cwestiwn 8:** Rhowch fanylion yr unigolyn a gwblhaodd y ffurflen hon. Mae hyn yn ein galluogi i gysylltu â chi pe bai gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â’r wybodaeth rydych wedi’i rhoi.

Dylai’r unigolyn sy’n cwblhau’r ffurflen hon ei llofnodi a rhoi’r dyddiad. Dychwelwch y ffurflen yn amserol gan ddefnyddio’r amlen ragdaledig a ddarperir.

**Cadwch gopi o’r arolwg wedi’i gwblhau rhag ofn y bydd rhaid i ni gysylltu â chi ynglŷn â’r wybodaeth rydych wedi’i rhoi, neu rhag ofn iddo fynd ar goll yn y post.**

---

**Gwybodaeth bellach**

Diolch am gwblhau’r ffurflen hon. Gwerthfawrogwn eich amser. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â ni drwy'r manylion isod:

**Ffôn:** 0207 944 8233
**E-bost:** CSRGT.STATS@dft.gov.uk
*(Dyfynnwch rif cofrestru’r cerbyd ym mhob darn o ohebiaeth)*

Gellir gweld cyfres o gwestiynau cyffredin hefyd ynglŷn â’r arolwg yn:
https://https://www.gov.uk/government/publications/road-freight-domestic-and-international-statistics-guidance

**Siwrneiau a wneir bob dydd gyda phedwar neu lai o stopiau** *(Mae enghreifftiau at ddibenion esboniadol yn unig ac efallai na fydd y nwyddau'n cyfateb i fath y cerbyd)*.

**Enghraifft 1:**
Mae lori yn gadael depo yn San Steffan, Llundain, yn cario tatws (sy'n pwyso 15,000 kg) ac mae'n dadlwytho yn Dover, Caint. Oddi yno mae'n teithio yn ôl i'w safle, San Steffan, yn wag.

| Diwrnod yr wythnos | Tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Cyrchfan: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw*: | | | Y pellter a deithiwyd Km/~~Milltiroedd~~ | | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd *Gweler Tudalen 5 y nodiadau canllaw Er enghraifft, Anifeiliaid byw, Gwastraff aelwyd, Post/parseli, Cynnyrch bwyd amrywiol, Peiriannau ar log ac ati* | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? *Defnyddiwch y codau ar dudalen 5 y nodiadau canllaw* | Math y llwyth *Gweler tudalen 5 o'r nodiadau canllaw* | Pwysau'r Nwyddau Kg Nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol | A oedd eich cerbyd yn cario ei gapasiti llawn? | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | Wedi'i lwytho | Gwag | | | | | *Lle? (O/N)* | *Pwysau? (O/N)* |
| | *SW1P 4DR* | | | | *DOVER* | ✔ | | | *75.3* | *-* | *TATWS* | *-* | *SB* | *15,000* | *O* | *N* |
| | *DOVER* | | | | *TN37 7GA* | | | | *-* | *75.3* | *GWAG* | *-* | *NS* | *0* | *N* | N |
| Llun | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

**Enghraifft 2:**
Mae lori yn gadael depo yn San Steffan, Llundain, yn cario tatws (sy'n pwyso 15,000 kg) sy'n cael eu danfon i Dover, Caint. Mae'n codi rhai parseli o'r un lleoliad yn Dover, yn pwyso 100 kg, ac yn parhau i'w gyrchfan nesaf, Hastings, lle mae hefyd yn casglu llwyth o ganiau LPG, sy'n pwyso 400 kg. Oddi yno mae'n teithio yn ôl i'r safle, San Steffan, lle mae'n cyflenwi'r nwyddau.

| Diwrnod yr wythnos | Tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Cyrchfan: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Y pellter a deithiwyd Km/~~Mill iroedd~~ | | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd *Gweler Tudalen 5 y nodiadau canllaw Er enghraifft, Anifeiliaid byw, Gwastraff aelwyd, Post/parseli, Cynnyrch bwyd amrywiol, Peiriannau ar log ac ati* | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? *Defnyddiwch y codau ar dudalen 5 y nodiadau canllaw* | Math y llwyth *Gweler tudalen 5 o'r nodiadau canllaw* | Pwysau'r Nwyddau Kg Nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol | A oedd eich cerbyd yn cario ei gapasiti llawn? | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | Wedi'i lwytho | Gwag | | | | | *Lle? (O/N)* | *Pwysau? (O/N)* |
| | *SW1P 4DR* | | | | *DOVER* | ✔ | | | *75.3* | *-* | *TATWS* | *-* | *SB* | *15,000* | *O* | *N* |
| | *DOVER* | ✔ | | | *TN37 7GA* | | | | *50* | *-* | *PARSELI* | *-* | *OT* | 100 | *N* | N |
| Llun | *TN37 7GA* | | | | SW1P 4DR | | | | 110 | | *CANIAU NWY LPG* | 2.1 | OT | 500 | O | N |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | |

**Enghraifft 3:**
Mae lori yn gadael depo yn San Steffan, Llundain, yn cario tatws (sy'n pwyso 15,000 kg) ac yn mynd i Dover, Caint i gasglu parseli sy'n pwyso 7,000 kg. Oddi yno mae'n teithio i'w gyrchfan nesaf, Hastings, lle mae hefyd yn casglu llwyth o ganiau LPG, sy'n pwyso 400 kg. O Hastings mae'n teithio i'w gyrchfan nesaf, Wembley, i ollwng y tatws. Yna mae'n teithio i Lerpwl i ollwng y parseli a'r caniau nwy. Oddi yno mae'r cerbyd yn dychwelyd i'r safle, yn wag. Oherwydd bod y cerbyd wedi gwneud pedwar stop ond yn dychwelyd i'r safle ac nad yw ei Siwrnai olaf yn golygu llwytho a/neu ddadlwytho pellach y diwrnod hwnnw, cofnodir hyn yn y pumed res.

| Diwrnod yr wythnos | Tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Cyrchfan: Cod post NEU enw'r lle a'r sir (Cofnodwch bob cam o'r siwrne ar linell ar wahân) | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Y pellter a deithiwyd Km/~~Milltiroedd~~ | | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd *Gweler Tudalen 5 y nodiadau canllaw Er enghraifft, Anifeiliaid byw, Gwastraff aelwyd, Post/parseli, Cynnyrch bwyd amrywiol, Peiriannau ar log ac ati* | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? *Defnyddiwch y codau ar dudalen 5 y nodiadau canllaw* | Math y llwyth *Gweler tudalen 5 o'r nodiadau canllaw* | Pwysau'r Nwyddau Kg Nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol | A oedd eich cerbyd yn cario ei gapasiti llawn? | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | Wedi'i lwytho | Gwag | | | | | *Lle? (O/N)* | *Pwysau? (O/N)* |
| Llun | *SW1P 4DR* | | | | *DOVER* | ✔ | | | *75.3* | - | *TATWS* | - | *SB* | *15,000* | *N* | *N* |
| | *DOVER* | ✔ | | | *TN37 7GA* | | | | *50* | - | *GRWPIO* | - | *OT* | *22,000* | *N* | N |
| | *TN37 7GA* | | | | HA9 0WS | | | | 137 | - | *GRWPIO* | 2.1 | OT | 22,400 | O | O |
| | HA9 0WS | | | | *CH41 1FE* | ✔ | | | *354* | - | *PARSELI* | *2.1* | *OT* | *7,400* | *N* | *N* |
| | *CH41 1FE* | ✔ | | | *SW1P 4DR* | | | | - | 376 | *GWAG* | - | NS | 0 | *N* | N |

Nodiadau:

Ar gyfer rhesi 2 a 3 roedd y lori yn cario gwahanol fathau o nwyddau, ond gan nad oedd yr un o'r nwyddau yn cyfrif am 75% **o gyfanswm y pwysau**, fe'u cofnodwyd fel grwpiau (i ddangos bod nwyddau cymysg).

Ar gyfer rhes 4, er oedd y lori yn cario parseli a chaniau LPG, roedd y parseli yn cynnwys dros 75% o'r pwysau – y prif fath o nwyddau. Felly, cofnodwyd y math o nwyddau fel parseli.

**Siwrneiau a wneir bob dydd gyda phump neu'n fwy o stopiau** *(Mae enghreifftiau at ddibenion esboniadol yn unig ac efallai na fydd y nwyddau'n cyfateb i fath y cerbyd).*

**Enghraifft 4:**

Mae lori yn gadael warws yn Margate, Caint, gyda llwyth o ddiodydd ysgafn (sy'n pwyso 8,000 kg). Mae'n gwneud 2 stop i ddadlwytho'r diodydd yn unig ac 8 stop lle mae'n dadlwytho diodydd ac yn codi diodydd gwag (1,000 kg) cyn dychwelyd i Margate. Y stop pellaf o Margate, Caint, yw Ramsgate, Caint.

| Diwrnod yr wythnos | Tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o: Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw: | | | Dynodiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Y stop pellaf o'r tarddiad: Cod post **NEU** enw'r lle a'r sir | Y pellter a deithiwyd Km/~~Mill iroedd~~ | | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd *Gweler Tudalen 5 y nodiadau canllaw Er enghraifft, Anifeiliaid byw, Gwastraff aelwyd, Post/parseli, Cynnyrch bwyd amrywiol* | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? *Defnyddiwch y codau ar dudalen 5 y nodiadau canllaw* | Math y llwyth *Gweler tudalen 5 o'r nodiadau canllaw* | Pwysau'r Nwyddau Kg Nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol | | Nifer y stopiau ar gyfer: | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Wedi'i lwytho | Gwag | | | | Wedi'i lwytho | Heb ei lwytho | Llwytho yn unig | Dadlwytho yn unig | Llwytho a dadlwytho |
| Llun | *MARGATE, CAINT* | | | | *MARGATE, CAINT* | | | | *RAMSGATE, CAINT* | *50* | *39* | *DIODYDD YSGAFN* | *-* | *RC* | *9,000* | *8,000* | *1* | *2* | *8* |

**Enghraifft 5:**

Mae lori gwastraff aelwyd yn gadael warws yn Margate, Caint i wneud nifer fawr o gasgliadau stryd (sy'n pwyso 18,000 kg) yn ardal Margate. Yna mae'n teithio i Safle Rheoli Gwastraff i ddadlwytho, sef stop pellaf y cerbyd o Margate, Caint, CT13 9NW. Yna mae'r cerbyd yn dychwelyd i'r depo yn wag.

| Diwrnod yr wythnos | Tarddiad: Cod post NEU enw'r lle a'r sir | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo o: Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw: | | | Cyrchfan: Cod post NEU enw'r lle a'r sir | A yw'r nwyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i: *Gweler tudalen 4 o'r nodiadau canllaw* | | | Stop pellaf o'r Tarddiad: Cod post **NEU** enw'r lle a'r sir | Y pellter a deithiwyd Km/~~Milltiroedd~~ | | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd *Gweler Tudalen 5 y nodiadau canllaw Er enghraifft, Anifeiliaid byw, Gwastraff aelwyd, Post/parseli, Cynnyrch bwyd amrywiol* | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? Defnyddiwch y codau ar dudalen 5 y nodiadau canllaw | Math y llwyth *Gweler tudalen 5 o'r nodiadau canllaw* | Pwysau'r Nwyddau Kg Nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol | | Nifer y stopiau ar gyfer: | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Porthladd neu ddociau morgludiant | Depo/ terfynfa reilffordd | Maes Awyr | | Wedi'i lwytho | Gwag | | | | Wedi'i lwytho | Heb ei lwytho | Llwytho yn unig | Dadlwytho yn unig | Llwytho a dadlwytho |
| Llun | *MARGATE, CAINT* | | | | *MARGATE, CAINT* | | | | *CT13 9NW* | *48* | *15* | *GWASTRAFF AELWYD* | *-* | *SB* | *18,000* | *18,000* | *LLUOSOG* | *1* | *0* |